

Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2014-17: Sir Powys

Mawrth 2014

UCAC | yr undeb sy'n diogelu athrawon a darlithwyr Cymru

Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2014-17: Sir Powys

Mae UCAC yn croesawu'r cyfle i ymateb i'r ymgynghoriad hwn gan Sir Powys ar ei Gynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2014-17.

Mae UCAC yn undeb llafur sy'n cynrychioli athrawon, arweinwyr ysgol a darlithwyr ym mhob sector addysg yng Nghymru.

Adran 1: Gweledigaeth a nodau ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg

Teimla UCAC fod angen cryfhau'r adran hon, a hynny am y rhesymau canlynol:

Mae rhai o'r datganiadau'n amwys e.e. "... mae'r Cyngor wedi'i ymrwymo i ddarparu addysg Gymraeg o'r ansawdd orau i bob plentyn a pherson ifanc ym Mhowys o fewn pellter rhesymol o'u cartrefi." Gan ystyried sefyllfa ieithyddol ysgolion y sir ar hyn o bryd, e.e. yn y sector uwchradd, cyfrwng Saesneg neu ysgolion dwy ffrwd a dim un ysgol cyfrwng Cymraeg, mae angen datganiad clir o'r hyn a olygir wrth "addysg Gymraeg o'r ansawdd orau i bob plentyn a person ifanc" a beth yw diffiniad y sir o "bellter rhesymol ar gyfer teithio i'r ysgol?"

Rhaid darparu dilyniant ieithyddol cadarn trwy bob cyfnod o addysg, i alluogi i'r holl blant a phobl ifanc ar draws Powys brofi manteision diwylliannol a gwybyddol dwyieithrwydd.

Mae Nodau Strategol yr awdurdod ar gyfer addysg Cyfrwng Cymraeg yn wan eu mynegiant, ac felly'n mynegi mwy o obaith nag o fwriad:

Nod Strategol 1: yn y dyfodol, sicrhau bod yr holl ddisgyblion oed cynradd ym Mhowys yn cael y cyfle i fynychu ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg os ydynt yn dymuno.

Ar hyn o bryd, mae addysg cyfrwng Cymraeg yn y sector cynradd ym Mhowys yn cael ei ddarparu mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg neu ffrydiau cyfrwng Cymraeg mewn ysgolion dwy ffrwd. Er bod y ddau fath o ysgol yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddatblygu eu sgiliau iaith Gymraeg, mae'r Cyngor yn cytuno'n llwyr â barn Llywodraeth Cymru, sef bod disgyblion yn fwy tebygol o ddod yn hollol ddwyieithog ar ôl mynychu ysgolion cyfrwng Cymraeg dynodedig, yn enwedig pan maent yn dod o gartrefi di-Gymraeg.

Nod Strategol 2: i ddarparu dilyniant addysg cadarn mewn darpariaeth cyfrwng Cymraeg ar draws yr holl gyfnodau addysgol.

O fewn cyd-destun presennol addysg uwchradd yn y sir, disgwylir y bydd y chwe ysgol dwy ffrwd yn darparu cymaint posibl o addysg Gymraeg, gyda'r nod y byddant oll yn dod yn ysgolion Categori 2B, er mwyn sicrhau bod disgyblion cyfrwng Cymraeg yn cael dewis cyfartal o bynciau o'i gymharu â disgyblion cyfrwng Saesneg. Mae nod strategol 2 fel petai'n gwrth-ddweud nod strategol 1, gan nad oes cyfeiriad i ddatblygu rhai o'r ysgolion uwchradd yn ysgolion category 2A neu cyfrwng Cymraeg dynodedig, er mwyn rhoi'r cyfle gorau posib i ddisgyblion gael dilyniant ieithyddol addas o'r cynradd i'r uwchradd.

Nod Strategol 3: i sicrhau bod yr holl bobl ifanc yn cael y cyfle i fynychu ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg dynodedig, o fewn neu'r tu allan i'r sir, os ydynt yn dymuno

Nid oes yr un targed mesuradwy o ran niferoedd nac amserlen yn yr adran hon sy'n amlinellu gweledigaeth y sir, heblaw am amserlen i gynnwys creu ysgol dynodedig Gymraeg yn Strategaeth Trawsnewid y Cyngor a gaiff ei gwblhau yn 2014. Dylai'r nod yma fod yn glir yn y Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2014 - 2017.

Adran 2: Y Cynllun Gweithredu

Deiliant 1: Mwy o blant saith oed yn cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg **Cynyddu nifer y dysgwyr saith oed sy'n cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg:**

Nid oes gyfeiriad fan hyn at bolisi teithio'r Awdurdod, a sut y mae'r polisi hwnnw'n hybu mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg, yn unol â gofynion Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008.

Ym marn UCAC nid yw'r targed mesuradwy ar gyfer y cynnydd a fwriedir yn ddigon uchelgeisiol. Gan ystyried y ffigwr ar gyfer 2013 o 18.8% (a'r cwmp siomedig ers y ffigwr o 19.4% yn 2012) dim ond 1.4% o gynnydd yw'r targed (gyda chynnydd o 0.8% yn unig ers ffigwr 2012).

Cyfeirir at gynyddu i 25% erbyn 2020 a golyga hyn llai nag 1% o gynnydd bob blwyddyn o 2015 - 2020. Gan ystyried y man cychwyn isel hwn dylai fod modd gweld gwelliant mwy sylweddol yn y sefyllfa.

Nid yw'r Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg hwn i fynd tu hwnt i 2017. Dylid gosod targed ar gyfer 2017 yn hytrach na 2020.

Croesawn y disgwyliad i ysgolion dwy ffrwd ddatblygu ar hyd y continwmm ieithyddol ond nid oes targedau mesuradwy pendant wedi 'u cofnodi, e.e. sawl ysgol, pa mor bell ar hyd y continwmm dros gyfnod y cynllun hwn. Byddai'n werth hefyd ystyried sut i gefnogi'r ysgolion cyfrwng Saesneg hynny y cyfeirir atynt, i symud ar hyd y continwmm; mae'n debygol bydd ganddynt hwy mwy o heriau o ran sicrhau bod staff yn gymwys ac yn barod i symud ymlaen.

Mabwysiadu dulliau cadarn o fesur y galw am ddarpariaeth gofal plant ac addysg statudol cyfrwng Cymraeg. Gweithredu'n brydlon ar gasgliadau arolygon rhieni:

Mae'r cynllun yn nodi problem sydd yn effeithio ar osod targedau mesuradwy pendant, sef yr ansicrwydd ynglyn â lefel y ddealltwriaeth o'r termau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog fel rhan o'r asesiad Digonolrwydd Gofal Plant. Mae'n bwysig sicrhau bod unrhyw ohebiaeth / arolwg yn diffinio'n glir natur ieithyddol y ddarpariaeth fel nad oes unrhyw amheuaeth gan rhieni. Byddwn yn disgwyl bod gan yr awdurdod gynlluniau pendant i sicrhau'r dealltwriaeth hwn, er mwyn gallu dibynnu ar ymatebion sydd yn dod i law.

Mae'r sir yn cyfeirio at ardaloedd penodol lle mae darpariaeth, ac eraill lle mae angen ehangu'r ddarpariaeth neu drafod y ffordd ymlaen, ac mae'n ymddangos bod rhai syniadau derbynol fan hyn, ond byddai cael amserlen bendant a mesuradwy yn cryfhau'r Cynllun.

Cyfeirir at fesur y galw am addysg cyfrwng Cymraeg 3+ yn 2014. Byddai'n werth nodi'n fras amserlen a threfniadau'r sir.

Sicrhau bod cynigion Ysgolion yr 21ain Ganrif yn cynnig ystyriaeth lawn o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg:

Mae rhywfaint o ddadansoddiad o'r sefyllfa bresennol a rhai o'r cynlluniau ar gyfer y dyfodol gydag amserlen gweithredu'r rhain wedi'u cynnwys. Nid yw'n glir os mai dyma'r unig ysgolion sydd dan sylw fel rhan o Raglen Ysgolion 21ain Ganrif a 'does dim manylion am sut i gefnogi parhad mewn datblygiad yr ysgolion hyn. Nid yw'n glir ychwaith faint o ddisgyblion a dargedir a beth yw'r canlyniadau a ddisgwylir. Nid oes targed ieithyddol mesuradwy fan hyn. Bwriad y Cynllun Strategol yw gwella, ehangu a chryfhau'r ddarpariaeth. Nid oes cyfeiriad at y ddarpariaeth o ran pynciau a chyfrwng yn yr ysgol dwy ffrwd, h.y. ble ar hyd y continwmm ieithyddol bydd y ffrwd Gymraeg?

Ni osodir unrhyw fath o feincnod na tharged ar gyfer datblygiad i'r ysgolion newydd / ffederasiwn newydd.

Sicrhau gweithio cydweithredol drwy gonsortia

Mae'n siomedig nad oes gan ERW grŵp penodol sydd yn ymwneud â darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Ni ddylai'r cydweithio hwn gymryd lle cyfrifoldeb yr awdurdod i ddarparu addysg cyfrwng Cymraeg o fewn pellter rhesymol i bob plentyn a pherson ifanc.

Cynyddu gallu i fanteisio ar ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg drwy gynlluniau trochi a chanolfannau i hwyrddyfodiaid:

Mae'r gwaith a amlinellir yn yr adran hon yn ymddangos yn gadarnhaol. Hoffem ychwanegu dau awgrym, sef y gosodir targed o ran terfyn amser ar gyfer rhoi mynediad i'r canolfannau i hwyrddyfodiaid, er enghraifft, o fewn tymor i gyrraedd yr ysgol newydd.

Teimlwn hefyd y dylai bod trefniadau yn eu lle ar gyfer tracio cynnydd a dilyniant y disgyblion hyn wedi iddynt elwa ar y cyrsiau dwys, er mwyn monitro effeithiolrwydd y rhaglen ac nid dim ond tracio llwybr hwyrddyfodiaid i ysgolion cyfrwng Cymraeg.

Awgrymwn gynnwys amserlen fesuradwy ar gyfer ystyriaeth o ganolfan ym Machynlleth. Awgrymwn ystyried sut i gefnogi ysgol Llanfyllin i ddenu disgyblion i'r prosiect trochi. Mae disgyblion hŷn yn aml yn anfodlon ymddangos yn wahanol i'w cyfoedion a gallai hyn chwarae rhan yn yr her o ddenu rhifau.

Mae'r syniad o gyflwyno prosiectau trochi mewn ardaloedd eraill yn bwysig ond nid oes unrhyw fanylder o ran ardaloedd nac amserlen na sut i fesur y galw.

Nid oes manylion ynglŷn â llwyddiant y grŵp cymorth Cymraeg ym Mro Ddyfi. Hoffem nodi'r pwysigrwydd o sicrhau cefnogaeth briodol (ariannol ac adnoddau dynol) er mwyn gallu cynnal a datblygu darpariaeth o'r fath a chanolfannau trochi.

Sefydlu Fforwm Addysg Cyfrwng Cymraeg a sefydlu cyswllt â Chynllun Plant a Phobl Ifanc. Sicrhau ystyriaethau ar gyfer adnoddau ac ariannu darpariaeth cyfrwng Cymraeg o fewn blynyddoedd cynnar:

Hoffem weld ymhelaethu ar y targed "gwerthuso llwyddiant y Clwstwr y Ffynnon" - pwy fydd yn cyfrannu at y gwerthusiad a sut? Beth fydd y mesurau llwyddiant? Beth fydd yr opsiynau os nad yw'r Sir yn hollol hapus gyda'r lefel llwyddiant?

Darparu gwybodaeth i rieni/ofalwyr:

Nid yw'r gosodiadau fan hyn yn dangos yn glir os ydy'r wybodaeth i rieni yn diffinio'r wahanol fathau o ysgolion a'u darpariaeth o ran cyfrwng gwersi. Cyfeirir at roi gwybod bod addysg uwchradd cyfrwng Cymraeg ar gyfer disgyblion o ardal Ystradgynlais yn cael ei ddarparu allan o'r sir yn Ysgol Ystalyfera. Beth am ardaloedd eraill yn y sir? Cyfeirir mewn man arall yn y Cynllun at ddisgyblion yn mynychu ysgol Gwynllyw.

Does dim son fan hyn am gynnwys manylion am drafnidiaeth byddai'n hwyluso cyrraedd yr ysgol cyfrwng Cymraeg (neu ysgol dwy ffrwd). Mae angen rhoi gwybod am ysgolion cyfrwng Cymraeg, ac esbonio'r gwahaniaeth rhwng y mathau o ysgolion o ran darpariaeth a deilliannau. Nid oes cyfeiriad at bolisi cludiant y sir a sut mae'n hybu / hwyluso mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg.

Deilliant 2: Mwy o ddysgwyr yn parhau i wella eu sgiliau iaith wrth drosglwyddo o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd

Cynyddu canran y disgyblion Blwyddyn 9 sy'n cael eu hasesu yn y Gymraeg (Iaith Gyntaf):

Mae'r awdurdod yn falch o'r cynnydd yn 2013 ond yn cydnabod bod y canran y disgyblion cafodd eu hasesu mewn Cymraeg (iaith gyntaf) yn dal i fod yn fach. Ym marn UCAC nid yw'r targed mesuradwy ar gyfer y cynnydd a fwriedir yn ddigon uchelgeisiol. Gan ystyried y ffigwr ar gyfer 2013 o 12.7% dim ond 0.5% o gynnydd sydd ers 2011, wrth ystyried y cwmp i 10.4% yn 2012. Dim llawer i'w groesawu, felly.

Er bod y ffaith bod cynifer o ddisgyblion y Sir yn mynychu ysgol Uwchradd Ystalyfera yn cyfrannu at y ffigwr isel hwn, gan ystyried y man cychwyn dylai fod modd gweld gwelliant mwy sylweddol yn y sefyllfa. Mae'r nifer sydd yn mynychu Ystalyfera, hefyd, yn dangos bod yna alw clir am addysg cyfrwng Cymraeg o fewn y Sir.

Cyfeirir at gynyddu i 20% erbyn 2020 a golyga hyn targed isel iawn o 1% o gynnydd yn flynyddol o 2015 - 2020. Nid yw'r Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg hwn i fynd tu hwnt i 2017. Dylid gosod targed ar gyfer 2017 yn hytrach na 2020.

Rydym yn canfod diffyg cyfeirio at gamau gweithredu penodol a fydd yn arwain at wella a chryfhau'r ddarpariaeth. Nid ydym o'r farn fod y targedau'n agos at fod yn ddigon uchelgeisiol, ac nid oes esboniad digonol o sut y bwriedir ymgynraedd atynt.

Byddai'n braf gweld manylion am fwradau'r sir o ran symud ysgolion uwchradd ar hyd y Continwmm. Ni sonnir beth yw'r camau nesaf i symud y ddarpariaeth yn ei blaen heblaw cyfeirio'n gyffredinol at y gobaith y bydd strategaeth yr awdurdod i gynyddu canran y disgyblion cyfrwng Cymraeg yn y blynyddoedd cynnar a'r sector cynradd," yn arwain at yr un fath o gynnydd yn yr uwchradd. Nid oes manylion am yr ysgolion bydd yn gallu darparu'r gwersi Cymraeg (iaith gyntaf) neu'r gwersi cyfrwng Cymraeg. Ni fanylir ychwaith ar sut y bwriedir mynd ati i sicrhau bod disgyblion yn parhau gyda rhaglenni iaith gyntaf ar ôl trosglwyddo i Gyfnod Allweddol 3.

Hyrwyddo trosglwyddo mwy effeithiol rhwng cyfnod cyn ysgol i ddarpariaeth statudol, rhwng Cyfnod Allweddol 2 a 3 a Chyfnodau Allweddol 3 a 4

Mae'r ffigurau yn Atodlen 3 yn awgrymu bod rhai disgyblion yn symud o raglen astudio Iaith Gyntaf i raglen astudio Ail Iaith rhwng cyfnodau allweddol 2 a 3. Beth mae'r awdurdod yn mynd i wneud am hyn?

Mae rhai targedau mesuradwy yn yr adran hon ond nid oes targed ar gyfer trosglwyddo o CA3-CA4. Nid oes manylion am ba fath o brosiectau bydd yn cael eu rhedeg. Mae manylion am brosiect llwyddiannus Ysgol Ystalyfera gydag ysgolion cynradd ardal Ystradgynlais a ariannwyd gan Nedd Port Talbot ond dim manylder am y prosiectau a fwriedir cynnal gydag ysgolion sydd yn bwydo Ysgol Caereinion a darpariaeth uwchradd cyfrwng Cymraeg, e.e. trwy Glwstwr y Ffynnon a throsglwyddo o Ysgol Dyffryn Trannon.

Hyrwyddo cyfran uwch o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg o fewn ysgolion dwyieithog:

Mae bwriad yr awdurdod o symud y chwe ysgol dwy ffrwd ymlaen ar hyd y Continwmm ieithyddol i'w groesawu ac mae targed clir ar gyfer BI7 yr ysgolion hynny erbyn Medi 2015. Gan ystyried y diffyg dilyniant rhwng CA3 a CA4 credwn byddai'n ddefnyddiol petai'r awdurdod yn gosod targed ar gyfer CA4, hefyd, gan fod y gallu i ddarparu trwy gyfrwng y Gymraeg yn lleihau yn CA4. Byddai nodi faint o gynnydd, pa bynciau ac ar gyfer faint o ddisgyblion yn rhoi mwy o wybodaeth a gwell targed.

Deilliant 3: Mwy o fyfyrwyr 14-16 oed yn astudio ar gyfer cymwysterau drwy gyfrwng y Gymraeg

Deilliant 4: Mwy o fyfyrwyr 16-19 oed yn astudio pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg, mewn ysgolion, colegau a dysgu seiliedig ar waith

Yn gyffredinol mae'r adran hon (deilliant 3 a 4) yn cyfeirio at ba mor anodd yw gwella ar y niferoedd cyfredol, ac yn dangos diffyg uchelgais a phenderfyniad o ran mynd ati i newid y sefyllfa, gydag absenoldeb targedau na chomau gweithredu manwl. Mae yna ddiffyg o ran darparu canrannau a niferoedd penodol. Cyfeirir yn hytrach at ansicrwydd ariannol a chostau cynnal grwpiau bach. Mae'r awdurdod yn canolbwyntio fan hyn ar y problemau yn hytrach na gosod targedau am welliant a chomau gweithredu pendant. Byddai'n werthfawr gwybod niferoedd pendant a gosod targedau pendant er mwyn gallu mesur cynnydd, hyd yn oed os oedd rhaid cynnwys nodyn o rybudd am y ffaith bod rhaid i rai materion ddibynnu ar yr arian fydd ar gael.

Cynyddu canran y myfyrwyr 14-16 sy'n astudio ar gyfer cymwysterau drwy gyfrwng y Gymraeg

Cred UCAC nad yw'r sefyllfa o ran disgyblion 14-16 oed sy'n astudio ar gyfer cymwysterau drwy gyfrwng y Gymraeg yn debygol o wella os nad yw'r awdurdod yn gosod targed o ran ehangu darpariaeth yn CA4. Cyfeirir yn yr adran hon at niferoedd bychan mewn rhai ffyrddiau Cymraeg yn codi cwestiynau am bolisiâu'r awdurdod o ran hybu a hwyluso mynediad at amrywiaeth o bynciau. Pam nad oes targed i gynyddu niferoedd mewn rhai pynciau penodol? Pam nad oes targed i gynyddu pynciau cyfrwng Cymraeg CA4 mewn rhai ysgolion penodol? Dyw ehangu darpariaeth i B17 ddim yn mynd i ddwyn ffrwyth yn CA4 am nifer o flynyddoedd.

Sicrhau bod darpariaeth i ddysgwyr 14-16 oed yn cyd-ymffurfio a'r Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru (2009))

Credwn fod perygl bod addysgu cyrsiau 14-19 o fewn dosbarthiadau dwyieithog yn mynd yn erbyn rheoliadau / canllawiau Mesur Dysgu a Sgiliau a Sgiliau (Cymru) (2009), h.y. y disgwyl bod pob elfen o'r cwrs yn cael ei ddarparu yn y Gymraeg.

Cynyddu canran y myfyrwyr 16-19 sy'n astudio pynciau trwy gyfrwng y Gymraeg

Yn yr un modd cyfeirir at niferoedd bychan, ond nid oes targedau penodol ar gyfer gwelliant. Mae'n amlwg bod ysgolion yn gwneud eu gorau i gynnal darpariaeth a bod athrawon ymroddedig yn darparu gwersi dwyieithog i ddisgyblion sydd yn mynd yn groes i gyngor yr awdurdod, er mwyn sicrhau cyfle i ddisgyblion sydd yn dymuno astudio trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'n bosib bod y ffaith nad oes grwpiau cyfrwng Cymraeg ar wahân ar gael er mwyn rhai pynciau yn dylanwadu ar ddewisiadau disgyblion.

Credwn fod angen targedau pendant a chomau gweithredu i gefnogi ysgolion i symud i'r cyfeiriad o allu darparu cyrsiau cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg ar wahân.

Deallwn y rhwystredigaeth a'r problemau ariannol, clodforwn yr athrawon a'u disgyblion a'u hymrwymiad i astudio yn y Gymraeg ond credwn nad yw'r llwyth gwaith ychwanegol i athrawon o ddarparu'n ddwyieithog o fewn yr un dosbarth yn dderbyniol ac mae'r model yn ddiffygiol ar gyfer y disgyblion. Pwyswn, felly, am dargedau bydd yn mynd i'r afael a'r sefyllfa.

Gweithio drwy rwydweithiau ardal 14-19 a fforymau 14-19 er mwyn cynnal a gwella darpariaeth cyfrwng Cymraeg

Nid oes manylder yn yr adran hon heblaw am gyfeiriau at ddwy ysgol a chydweithio gydag un Awdurdod Lleol arall. Byddai mwy o fanylion yn ddefnyddiol er mwyn i ni gael darlun cyflawn o'r gweithio mewn partneriaeth. Does dim targedau penodol mesuradwy.

Casglu, dadansoddi a defnyddio data ar ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg 14-19. Cynllunio ar gyfer darpariaeth ôl-16 o fewn partneriaethau.

Nid yw'r awdurdod wedi cynnwys data penodol am 14-19. Byddai'n dda cael niferoedd presennol, targedau ar gyfer y dyfodol - o ran disgyblion sydd yn astudio pynciau penodol / nifer o bynciau trwy gyfrwng y Gymraeg a hefyd nifer yr athrawon sydd yn gallu addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg ac anghenion hyfforddiant y sawl byddai'n dymuno gwneud ond nad ydynt yn hyderus i wneud ar hyn o bryd.

Deilliant 5: Rhagor o fyfyrwyr â sgiliau uwch yn y Gymraeg

Gwella gwaith sgiliau llythrennedd a rhifedd

Rydym yn synnu bod yr Awdurdod wedi cyflogi 3 athro i weithio gydag ysgolion i gefnogi gweithrediad y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd a dim un ohonynt yn gallu siarad Cymraeg ("er nad yw'r athrawon hyn yn siarad Cymraeg, maent wedi bod yn gweithio gydag ysgolion a ffrydiau Cymraeg i ddarparu rhywfaint o gefnogaeth.") Mae'n anodd deall sut maent wedi gallu cefnogi'n effeithiol yr ysgolion sydd yn addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg.

Eto, does dim targedau a champau gweithredu pendant er mwyn mesur cynnydd.

Gwella darpariaeth a safonau Cymraeg Iaith Gyntaf

Mae targedau mesuradwy wedi'u gosod gyda rhai camau penodol i gefnogi gwelliant. Wrth gydnabod gwerth rhoi cyfleoedd i athrawon farcio ar y cyd, pwysleisiwn fod athrawon yn bobl broffesiynol sydd â llwyth gwaith sylweddol. Rydym yn bryderus am y cyfeiriad at ddarparu proffiliau disgyblion o ran y potensial am lwyth gwaith ychwanegol beichus.

Y Gymraeg tu allan i'r dosbarth (5.3 a 5.5.)

Mae'n ymddangos bod amrywiaeth o weithgareddau wedi'u trefnu gan fudiadau gwahanol ond wrth gwrs mewn sir sydd mor ddaearyddol fawr bydd argaeledd digwyddiadau yn amrywio o ardal i ardal.

Dyw'r cyfeiriad at gadw cysylltiad gyda'r mudiadau hyn ddim yn darged digonol ym marn UCAC.

O ran gwaith yr Athrawon Bro nid oes cofnod o faint ohonyn nhw sydd yn gweithio yn yr awdurdod ac yn gwneud y gwaith pwysig o gefnogi a hybu defnydd o'r iaith y tu allan i'r dosbarth.

Gwella darpariaeth a safonau Cymraeg Ail Iaith:

Sylwn na nodwyd y ffigyrau ar gyfer y sawl sy'n sefyll Cymraeg Ail Iaith Cwrs Llawn - gofynnir am y ffigyrau hynny gan ganllawiau Llywodraeth Cymru. Nid oes targed chwaith o ran cynyddu niferoedd cwrs llawn a lleihau niferoedd cwrs byr. Ni nodir pa gamau sy'n cael eu cymryd ar hyn o bryd, na pha gamau y bwriedir eu cymryd i leihau'r niferoedd sy'n sefyll y Cwrs Byr yn hytrach na'r Cwrs Llawn.

Dilyniant o TGAU i Safon U/UG

Mae'r ffigurau'n isel o ran dilyn Cymraeg fel pwnc ar gyfer safon U/UG ac nid yw'n glir faint o'r disgyblion TGAU Iaith Gyntaf sydd yn dilyn Safon Uwch Ail Iaith, os o gwbl. Does dim targedau penodol wedi nodi.

Deilliant 6: Darpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol cyfrwng Cymraeg

Does dim ffigurau wedi nodi am yr angen am gefnogaeth a'r ddarpariaeth sydd ar gael a ble. Mae'n bwysig sicrhau darpariaeth addas cyfrwng Cymraeg o fewn cyrraedd i blant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol.

Deilliant 7: Cynllunio'r gweithlu a datblygiad proffesiynol parhaus

Nid oes unrhyw dargedau wedi'u gosod yn 7.1. Mae amlinelliad eithaf clir o'r sefyllfa ac o broblemau penodol ond dim awgrym am gamau gweithredu na thargedau am welliant. Tynnwn eich sylw at y cyfeiriad at "benaethiaid sy'n Gymry Cymraeg", a nodi mai rhuglder yn y Gymraeg sydd yn bwysig a bod y cyfeiriad yn anaddas yn y ddogfen.

Sonnir nad oes problemau recriwtio mawr yn y sector uwchradd a hynny, rydym yn cymryd, yn seiliedig ar y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg sydd ar gael yn yr ysgolion ar hyn o bryd. Gan ystyried nad oes un ysgol uwchradd yn fwy na chategori 2C ar y cyfan ar hyn o bryd mae'n bwysig i'r awdurdod amlinellu'n glir pa ysgolion bydd yn symud ar hyd y continwmm, pryd a pa bynciau ychwanegol a gynnigir yn gyntaf. Bydd hyn yn rhoi cyfleoedd i athrawon a staff ategol yn yr ysgolion hynny weld pwysigrwydd gwella'u sgiliau. Mae angen gwybodaeth bendant a thargedau clir.

UCAC

Mawrth 2014



UCAC
Undeb
Cenedlaethol
Athrawon
Cymru



Prif Swyddfa **UCAC**, Ffordd Penglais, Aberystwyth, Ceredigion SY23 2EU

ffôn: 01970 639950 | ffacs: 01970 626765 | ucac@athrawon.com

[facebook.com/AthrawonCymru](https://www.facebook.com/AthrawonCymru) twitter.com/AthrawonCymru

www.athrawon.com